

PARTNERIAETH ADFYWIO SIR GAERFYRDDIN - Grŵp Gweithredu Lleol Sir Gaerfyrddin -

Y Cylch Gwaith

Rhagarweiniad

Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Lleol Sir Gaerfyrddin gan Bartneriaeth Adfywio Sir Gaerfyrddin i gael gwybod beth yw anghenion y Sir Gaerfyrddin wledig ac i fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Y Pwrpas

Swyddogaeth y grŵp yw gyrru adfywio gwledig yn Sir Gaerfyrddin yn ei flaen drwy wneud y canlynol:

- goruchwylio rheoli a chynnal y Rhaglen LEADER
- llunio gweithdrefn dewis sy'n dryloyw ac yn anwahaniaethol ynghyd â meini prawf ar gyfer dewis gweithrediadau, sy'n osgoi gwrthdaro buddiannau, sy'n sicrhau bod o leiaf 50% o'r pleidleisiau wrth wneud penderfyniadau yn cael eu bwrw gan bartneriaid nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus, ac sy'n caniatáu dewis drwy weithdrefn ysgrifenedig
- paratoi a chyhoeddi galwadau am gynigion neu am weithdrefn dewis prosiect, gan gynnwys diffinio meini prawf dewis
- cael ceisiadau am gymorth a'u hasesu
- dewis gweithrediadau a phennu swm y cymorth, a, lle bo hynny'n berthnasol, cyflwyno'r cynigion i'r corff sy'n gyfrifol am ddilysu'n derfynol eu bod yn gymwys cyn eu cymeradwyo
- monitro gweithredu'r strategaeth datblygu lleol dan arweiniad y gymuned a'r gweithrediadau a gefnogir, a chynnal gweithgareddau gwerthuso penodol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth honno
- cryfhau gallu gweithredwyr lleol i ddatblygu a gweithredu gweithrediadau gan gynnwys meithrin eu gallu o ran rheoli prosiectau a'u cynorthwyo i gyflwyno syniadau i brofi dulliau blaengar o weithio
- sefydlu a monitro'r prif dargedau a chanlyniadau
- monitro'r gwariant mewn perthynas â'r prif dargedau ariannol
- monitro a chymeradwyo adroddiadau cynnydd ynghylch gweithredu'r Strategaeth Datblygu Lleol a phrosiectau cysylltiedig, a chanfod bylchau yn y ddarpariaeth
- cynnal adolygiad blynyddol o'r strategaeth ynghyd â gweithgareddau gwerthuso penodol o ran y gweithgareddau a gefnogwyd
- sicrhau bod cydlyniaeth â'r strategaeth datblygu lleol dan arweiniad y gymuned wrth ddewis gweithrediadau, drwy flaenoriaethu'r gweithrediadau hynny yn ôl eu cyfraniad o ran cyflawni amcanion a chyrraedd targedau'r strategaeth
- cymryd rhan mewn prosiectau cydweithredu rhyngranbarthol a thrawswladol er mwyn cael gwybod yn gyson am yr arferion blaengar diweddaraf
- clustnodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion strategol eraill sy'n ymwneud â'r Sir Gaerfyrddin wledig a chlustnodi ffynonellau cyllido posibl
- sicrhau bod y strategaeth a'r gweithgareddau cysylltiedig yn rhoi ystyriaeth i'r themâu trawsbynciol e.e. yr iaith Gymraeg; cyfle cyfartal; datblygu cynaliadwy, a mynd i'r afael â thlodi

Yr Aelodaeth

- Bydd y Grŵp Gweithredu Lleol yn penodi ei gadeirydd a'i is-gadeirydd ei hun
- Cynhelir etholiadau am swyddi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd bob blwyddyn. Os bydd mwy nag un ymgeisydd, bydd y penodiad yn digwydd trwy bleidleisio

- Bydd yr Aelodaeth yn cynnwys trawstoriad o gyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r Sir Gaerfyrddin wledig. Bydd yr Aelodaeth yn esblygu er mwyn diwallu anghenion yr ardal wrth iddynt newid
- Bydd y Grŵp Gweithredu Lleol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, o'r trydydd sector, ac o'r sector preifat ynghyd â buddiannau economaidd-gymdeithasol lleol. Dylai'r Aelodaeth fod yn o leiaf 18 aelod
- Os nad yw aelod yn gallu bod yn bresennol, gall eilydd fod yn bresennol ar ran yr aelod
- Caiff y Cadeirydd wahodd rhai nad ydynt yn aelodau i gyfarfodydd, pan fydd angen cyngor gan arbenigwyr
- Gall y Grŵp Gweithredu Lleol sefydlu gweithgorau ar gyfer meysydd gwaith penodol ar ei ran.

Trefniadaeth

- Bydd y Grŵp yn gweithredu ar sail consensws. Os na ellir cael consensws bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw
- Bydd y Grŵp yn cyfarfod bob chwarter neu yn ôl yr angen
- Y cworwm ar gyfer y cyfarfodydd fydd o leiaf 8 o aelodau
- Ni fydd gan un grŵp buddiant nac awdurdod cyhoeddus fwy na 49% o'r hawliau pleidleisio ar y lefel gwneud penderfyniadau gan y Grŵp Gweithredu Lleol
- Os bydd gwrthdaro buddiannau gan unrhyw aelodau, ni fydd yr aelodau hynny'n gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y prosiect dan sylw. Dylai aelodau ddatgan budd ar y cyfle cyntaf posibl a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ddilynol. Gofynnir i'r aelodau hynny adael yr ystafell
- Tim Cyllido Allanol, Cyngor Sir Gaerfyrddin fydd y corff gweinyddol, a bydd yn atebol i'r Grŵp Gweithredu Lleol
- Er mai'r Awdurdod Lleol fydd yn cyflogi'r corff gweinyddol, ni fydd y corff gweinyddol yn ffafrio gweithgareddau llywodraeth leol
- Dosberthir y papurau ar gyfer y cyfarfodydd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn pob cyfarfod
- Dosberthir cofnodion y cyfarfodydd o leiaf 10 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod
- Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ym mhob un o gyfarfodydd y Grŵp Cefn Gwlad ar gyfer aelodau nad ydynt yn gallu Cymraeg

Cysondeb a Phriodoldeb

- Llunio rheolau ynghylch cysondeb a phriodoldeb, gan gynnwys y rheolau ynghylch osgoi gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â dewis y prosiectau sydd i gael cymorth ariannol a holl weithgareddau eraill y Grŵp Gweithredu Lleol, a chydymffurfio â'r rheolau hynny.
- Sicrhau bod ei bolisiau cyffredinol yn cyd-fynd â'r rheolau hyn a'r egwyddorion sylfaenol o ran priodoldeb.
- Cael adroddiad blynyddol ynghylch gweithredu'r rheolau a'r arferion da sy'n gysylltiedig â chaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau yn gyhoeddus gan y Grŵp Gweithredu Lleol.
- Wrth wneud penderfyniadau ynghylch dewis prosiectau, mae'n rhaid i o leiaf 51% o'r pleidleisiau fod gan bartneriaid nad ydynt yn y sector cyhoeddus.
- Ni fydd hawl i bleidleisio gan ymgynghorwyr sy'n bresennol.
- Mae'n rhaid i aelodau o'r Grŵp Gweithredu Lleol sydd â buddiant personol neu ariannol mewn mater a drafodir ddatgan y buddiant hwnnw, ac ni fydd ganddynt hawl i bleidleisio ar y mater hwnnw.

Y Corff Gweinyddol

- Tim Cyllido Allanol, Cyngor Sir Gaerfyrddin, fydd y corff gweinyddol a fydd yn goruchwyllo cyflawni'r strategaeth datblygu lleol, gan gynnwys cynnydd y prosiectau unigol. Hefyd bydd y rôl hon yn cynnwys cadarnhau bod y grant yn cael ei weinyddu a'i ddefnyddio'n gywir gan gadw at y gofynion rheoleiddio a chan gydymffurfio â chylch gwaith y grant.

Aelodau Grŵp Gweithredu Lleol Sir Gaerfyrddin

Y Sector Cyhoeddus	Y Cynrychiolydd	Y Dirprwy
Cyngor Sir Caerfyrddin	Wendy Walters	John Wilson
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Richard Tyler	Heb fod ar gael
Coleg Sir Gâr	Carolyn Williams	Medi Williams
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Hywel Davies h.davies@uwtsd.ac.uk	Sarah Kelley s.kelley@uwtsd.ac.uk
Y Bwrdd Iechyd Lleol	Peter Llewellyn	I'w gadarnhau
Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol	Gwyneth Ayers	Joanna Jones
Heddlu Dyfed-Powys	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Y Sector Cymunedol / Gwirfoddol	Y Cynrychiolydd	Y Dirprwy
Antur Teifi	Dewi Williams	Kevin Harrington
Menter Bro Dinefwr	Owain Gruffydd	I'w gadarnhau
Menter Gorllewin Sir Gâr	Dewi Snelson	I'w gadarnhau
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr	Marie Mitchell	I'w gadarnhau
Ymddiriedolaeth y Tywysog	Sue Thompson	Victoria Willis
Menter Cwm Gwendraeth	Nerys Burton	I'w gadarnhau
Mynyddoedd Cambria	Peter Rees	Wynne Jones
Co-op Cymru	Marc Davies	Steve Robinson
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Jacqui Kedward	I'w gadarnhau
Y Sector Preifat	Y Cynrychiolydd	Y Dirprwy
Undeb Amaethwyr Cymru	David Waters	Heb fod ar gael
Ynni Sir Gâr	Neil Lewis	Roxanne Treacy
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Peter Howells	Heb fod ar gael
Menter a Busnes	Eirwen Williams	I'w gadarnhau
Cymdeithas Ymwelwyr Sir Gâr	Nia Ball	I'w gadarnhau
Y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol	Aled Roberts	Heb fod ar gael
Mudiad y Ffermwyr Ifanc	Eirios Thomas	Heb fod ar gael
Siambwr Fasnach De Cymru	Barry Jeffreys	Heb fod ar gael
Ymgynghorwyr		
Llywodraeth Cymru	Rhaglenni Gwledig	
Cyfoeth Naturiol Cymru	Aled Davies	
Cymunedau yn Gyntaf	Amy Hawkins	

Y corff gweinyddol – Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru	Rhian Phillips	Beth Walters
---	----------------	--------------